YR AELOD CABINET DROS GARTREFI A DIRPRWY ARWEINYDD

DYDD Iau, 27 Hydref 2022

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd: L.D. Evans (Aelod o'r Cabinet)

Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:
R. Phillips, Rheolwr Rhaglenni Ewropeaidd
J. Pritchard, Community Regeneration Officer
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Rhith-Gyfarfod: 3.30 yp - 4.15 yp

1. DATGANIADAU O FUDDIANAU PERSONOL.
Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

2. COFNOD PENDERFYNIADAU - 5ED GORFFENNAF 2022

PENDERFYNWYD llofnodi Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 5ed Gorffennaf 2022, gan ei fod yn gywir.

3. CRONFA CYMORTH AELWYDYDD
Bu'r Aelod Cabinet dros Gartrefi a'r Dirprwy Arweinydd yn ystyried adroddiad yn manylu ar sefydlu Cronfa Gymorth i Aelwydydd, wedi'i hariannu'n llawn gan gymorth grant Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cymru, i alluogi'r awdurdod i gefnogi'r nifer cynyddol o bobl sy'n wynebu tlodi bwyd. Byddai'r gronfa yn cefnogi strategaethau a chynlluniau presennol y Sir i gefnogi'r rheiny sy'n wynebu tlodi, gan gynnwys y Strategaeth Gorfforaethol ac Asesiad Llesiant Sir Gaerfyrddin. Byddai'r gronfa hefyd yn cyd-fynd â 7 nod Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru.

PENDERFYNWYD

3.1 cymeradwyo'n ôl-weithredol y gwaith o ddarparu'r Gronfa Gymorth i Aelwydydd a weinyddir gan dîm Biwro y Cyngor yn yr is-adran Datblygu Economaidd;

3.2 cymeradwyo dirprwyaeth i'r Pennaeth Adfywio i ddyfarnu'r cyllid;

3.3 cymeradwyo dirprwyaeth i'r Pennaeth Adfywio, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Gartrefi a'r Dirprwy Arweinydd, i drosglwyddo unrhyw danwariant i gronfa dlodi ehangach y Sir os bydd angen.

4. CRONFA TLODI
Bu'r Aelod Cabinet dros Gartrefi a'r Dirprwy Arweinydd yn ystyried adroddiad yn manylu ar sefydlu Grant Trydydd Parti i gefnogi'r nifer cynyddol o bobl sy'n wynebu tlodi bwyd drwy ddarparu cymorth ariannol i alluogi sefydliadau lleol i fodloni anghenion lleol. Byddai'r grant yn agored i unrhyw fudiad â chyfansoddiad a oedd yn gofyn am gefnogaeth ar gyfer y rhai sy'n wynebu tlodi yn Sir Gaerfyrddin. Byddai'r grant, a fyddai'n cael ei ariannu'n llawn gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cymru, yn cefnogi strategaethau a

chynlluniau presennol y Sir i gefnogi'r rhai sy'n wynebu tlodi, gan gynnwys y Strategaeth Gorfforaethol ac Asesiad Llesiant Sir Gaerfyrddin.

PENDERFYNWYD

4.1 cymeradwyo sefydlu Grant Trydydd Parti yn ôl-weithredol, a weinyddir gan dîm Biwro y Cyngor yn yr is-adran Datblygu Economaidd, i gefnogi'r rhai sy'n wynebu tlodi;

4.2 cymeradwyo dirprwyaeth i'r Pennaeth Adfywio i ddyfarnu cyllid o hyd at uchafswm o £10k fesul ymgeisydd.

AELOD O'R CABINET	**DYDDIAD**